# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 16 Gorffennaf 2019

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5674

# 223

## Datganiad gan y Llywydd

Gwnaeth y Llywydd, ar ran y Cynulliad, ddatganiad yn estyn cydymdeimladau â theulu a chyfeillion y cyn-Aelod Rod Richards.

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

Atebodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip y 6 chwestiwn yn y 15 munud olaf o'r sesiwn hon ar faterion yn ymwneud â'i chyfrifoldebau.

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 14.50

## 3 Datganiad gan y Prif Weinidog: Y Rhaglen Ddeddfwriaethol

Dechreuodd yr eitem am 15.16

## 4 Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd: Rhagolygon y Dyfodol ar gyfer Gwariant Cyhoeddus yng Nghymru

Dechreuodd yr eitem am 16.33

## 5 Datganiad gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit: Parodrwydd am Brexit

Dechreuodd yr eitem am 17.25

## 6 Rheoliadau Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017 (Rhyddhadau) (Diwygiadau Amrywiol) 2019

Dechreuodd yr eitem am 18.14

**NDM7120** – Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017 (Rhyddhadau) (Diwygiadau Amrywiol) 2019 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 25 Mehefin 2019.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 7 Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwystra) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2019

Dechreuodd yr eitem am 18.19

**NDM7121** – Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwystra) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2019 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 25 Mehefin 2019.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 8 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ardrethu Annomestig (Toiledau Cyhoeddus)

Dechreuodd yr eitem am 18.24

**NDM7122** – Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Ardrethu Annomestig (Toiledau Cyhoeddus), i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 25 Mehefin 2019 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 9 Dadl ar Gyfnod 4 y Bil Deddfwriaeth (Cymru)

Dechreuodd yr eitem am 18.26

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

**NDM7123** – Jeremy Miles (Castell-nedd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.47:

Yn cymeradwyo'r Bil Deddfwriaeth (Cymru).

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 49 | 0 | 0 | 49 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

## 10 Cyfnod pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 18.31

## Crynodeb o Bleidleisiau

Daeth y cyfarfod i ben am 18.32

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 17 Gorffennaf 2019**